

DOLEN Y TAB – 34

11–12 RHAGFYR 2020

OEDFA BORE SUL 13 RHAGFYR

Oedfa Nadolig Plant yr Ysgol Sul.

OEDFAON Y SULIAU NESAF

Rhagfyr

20 Rhaglen nodwedd o gerddi, sylwadau, storiâu, caneuon, atgofion ac unrhyw eitem arall i ddathlu Gŵyl y Nadolig.

Plis danfonwch eich cyfraniadau i'r oedfa ar Whatsapp naill ai at Rhiannon Humphreys ar 07861 753945 neu at Geraint Rees ar 07816 341527.

27 Oedfa i dawelu ar ddiwedd blwyddyn yng nghwmni Geraint Wyn.

Ionawr 2021

3 Y Parchg. Aled Edwards.

10 Yng ngofal Geraint Rees.

Cofiwch hefyd am . . .

10.30 Oedfa Ddigidol yr Undeb

Manylion pellach heb eu cyhoeddi.

(Ar gael ar wefan yr Undeb annibynwyr.org a *YouTube*)

12.00 Oedfa Radio Cymru

Rhys Llwyd, Caernarfon – yn Jerusalem

12.30 Radio Cymru

Bwrw Golwg gyda John Roberts

E-fwletin Cristnogaeth21 newydd i'w weld bob bore Sul www.cristnogaeth21.cymru

Capel y Tabernacl Cyf.

Rheolwr Safle

Gwahoddir ceisiadau am y swydd ran-amser uchod.

Am fanylion pellach, cysylltwch ag un o'r canlynol:

Mike West

mikealynwest@yahoo.co.uk / 01443 206833

Gwilym Huws

gehpengwern@yahoo.co.uk / 01443 225205

Apêl

Os oes rhywrai fyddai'n fodlon cyfrannu at oedfaon 2021, plis wnewch chi gysylltu gyda Geraint Rees.

Mae angen pob talent arnom i gynnal y llif o amrywiaeth ar gyfer ein Suliau.

Diolch yn fawr.

Gair gan y Trysorydd

A ninnau ar drothwy blwyddyn newydd, mae gan Arwyn dair neges i'w trosglwyddo:

- **Cyfraniadau**

Yn y cwrdd blynyddol yn ddiweddar soniais fod costau cynnal y capel yn codi'n flynyddol, ac apeliais ar yr aelodau i roi ystyriaeth i hyn wrth benderfynu ar lefel eu cyfraniadau at yr achos.

- **Casgliadau 2020**

I'r rhai hynny sy'n arfer cyfrannu'n rheolaidd i gronfa'r Tabernacl (amlenni gwyn) a/neu'r elusennau (amlenni brown) hoffwn eich atgoffa y byddwn yn cau'r llyfrau eleni ar 31 Rhagfyr. Os am gyfrannu yn ôl eich arfer, dylid anfon siec wedi ei chyflwyno i *Capel y Tabernacl Cyf.* at: Mr Arwyn Lloyd Jones, Tŷ Newydd, 39 Parc Bryn Derwen, Llanharan, Pontyclun CF72 9TU. Os byddwch yn anfon ataf fi, rhowch y siec mewn amlen wen neu frown a nodi eich rhif aelodaeth. Hefyd gallwch wneud trosglwyddiad banc i gyfrif y capel gan nodi 'Amlenni Gwyn' neu 'Amlenni Brown' ynghyd â rhoi'ch rhif aelodaeth lle gofynnir am gyfeirnod:

Enw'r cyfrif: Capel y Tabernacl Cyf.

Cod didoli: 30 – 96 – 72

Rhif y cyfrif: 03607499

- **Amlenni 2021**

Yn groes i'r drefn arferol, ni fyddwn yn argraffu amlenni pwrpasol ar gyfer 2021. Yn hytrach, gofynnir i chi ddefnyddio'r amlenni gwyn a brown sy'n sbâr o eleni. Os na fydd digon gennych, yna medrwyd gyflwyno eich cyfraniadau mewn amlenni cyffredin gan gofio nodi eich rhif aelodaeth ac ysgrifennu ar yr amlen ai i gronfa'r eglwys ynteu i gronfa elusennau y bwriedir y cyfraniad.

Galwad am Noddwyr

Cyfrol sydd i'w chyhoeddi yn y dyfodol agos yw *Meddyg y Galon Glwyfus: Gofal am Iechyd Meddwl a Chymwynas Fawr Dr David Enoch* gan Robin Gwyndaf. Croesewir unrhyw un fyddai'n hoffi nodd i'r gyfrol hon. Caiff unrhyw elw o'r gyfrol ei rannu rhwng Gofal Dydd Capel Waengoleugoed, Llanelwly, a'r 'Stafell Fyw, Caerdydd. Am ragor o fanylion sut y medrwyd fod yn noddwr, cysylltwch â Gwilym Huws: (gehpengwern@yahoo.co.uk / 01443 225205).

Blwyddyn Newydd...

Gallwn fentro dweud y bydd pawb yn y Tabernacl, a thros y byd i gyd, yn falch o gefnu ar y flwyddyn hon. Mewn cwta tair wythnos fe fydd hi'n amser i ddymuno 'Blwyddyn Newydd Dda' i'n gilydd unwaith yn rhagor. Ond y tro hwn fe fydd arwyddocâd llawer iawn dyfnach nag arfer i'r cyfarchiad hwn, gan nad oes neb am weld ailadrodd profiadau eleni eto yn 2021, nac mewn unrhyw flwyddyn arall o ran hynny. Ond diolch i ddyfeisgarwch ac amynedd dwsinau o wyddonwyr talentog i dderbyn yr her o ddatblygu brechlyn, a hynny ar frys, mae'r newyddion syfrdanol am eu llwyddiant wedi codi gobeithion pawb y medrwn dychwelyd i fywyd mwy normal erbyn y gwanwyn.

Er hynny, ni fyddwn yn dychwelyd i'r 'hen' normal, ond yn hytrach i'r normal 'newydd' y clywsom gymaint o sôn amdano dros y misoedd diwethaf. Does neb eto'n teimlo'n ddigon hyderus i ragweld yr hyn sydd o'n blaenau ymhen blynyddoedd, ond yn y tymor byr mae'n debygol y gwelwn dwf aruthrol yn nifer y rhai di-waith, a rhagor o dlodi – yn enwedig felly mewn ardaloedd difreintiedig megis RhCT. Ar ben hynny, rhagwelir cwmp mewn gwariant cyhoeddus yn y meysydd sydd mor allweddol i les y gymuned ac i iechyd meddyliol a chorfforol unigolion. Yn y Cwrdd Blynyddol y Sul diwethaf, clywsom gan John Llew am y caledi sydd eisoes o fewn ein cymuned, ac yn anffodus mae llawer gwaeth eto i ddod.

Wrth gwrs, mae gan y wladwriaeth y gallu i wrthsefyll y cyni economaidd disgwylidig trwy godi treth ychwanegol o 1% ar bawb sy'n werth dros filiwn o bunnoedd. Ond er i ni ddiodef blwyddyn ddigynsail eleni, mae'n bur annhebygol y bydd gan Lywodraeth y Deyrnas Gyfunol ddigon o asgwrn cefn i ddangos trugaredd trwy dorri un o addewidion eu maniffesto i liniaru baich y teuluoedd hynny fydd yn diodef yn fwy na neb arall yn sgil y pandemig.

Ond nid y Wladwriaeth a chyrrff cyhoeddus eraill yn unig fydd angen ymateb yn greadigol i heriau'r cyfnod ôl-bandemig. Mae'n bwysig, er enghraifft, nad yw'r Eglwys yn ei gweld ei hun yn eithriad yn wyneb yr argyfwng cymdeithasol a wynebir. Dyma'r rheswm cyntaf pam ei bod yn hynod amserol bod holl eglwysi Undeb yr Annibynwyr Cymraeg wedi derbyn pecyn gwybodaeth yn ddiweddar gyda manylion Rhaglen Arloesi a Buddsoddi yr Undeb. Yr ail reswm pam fod y datblygiad yn un mor amserol yw bod yr eglwysi wedi llwyddo i reoli newid mor aruthrol dros y naw mis diwethaf a'u bod felly'n fwy parod i wynebu heriau pellach.

*Cylchlythyr wythnosol yw **Dolen y Tab** i ledaenu newyddion teuluol, cyhoeddiadau neu ddiolchiadau i'r Tabernacl trwy gyfrwng e-bost, Facebook a gwefan y capel. Gofynnir i chi anfon unrhyw newyddion erbyn nos lau at:*
gehpengwern@yahoo.co.uk /
07710 237327 / 01443 225205.

Heriau Newydd

Amcan y rhaglen yw cefnogi eglwysi'n ariannol i fuddsoddi yn eu dyfodol trwy fentro i fabwysiadu ffyrdd newydd o hyrwyddo'r Efengyl ac i wasanaethu'r gymuned leol.



Oherwydd yr argyfwng Covid-19, bu'n rhaid gohirio'r bwriad gwreiddiol i lansio'r cynllun yng nghyfarfodydd blynyddol yr Undeb oedd i'w cynnal ym mis Mehefin eleni. Ond er bod nifer fawr o eglwysi'n parhau i wynebu anawsterau yn sgil y pandemig, roedd yr Undeb o'r farn mai dyma'r union amser i ddechrau meddwl yn greadigol a dyfeisgar i dorri tir newydd wrth gynllunio ffyrdd amgen o wasanaethu o fewn y gymuned.

Mae cronfa ariannol sylweddol wedi ei chlustnodi i noddi'r rhaglen, a bydd yr Undeb yn barod i gynnig hyd at £10,000 y flwyddyn dros gyfnod hyd at 5 mlynedd i weithredu cynlluniau sy'n gydnaws ag amcanion y rhaglen. Ond maent yn prysuro i bwysleisio nad diben y rhaglen yw cwrdd â diffygion ariannol cynlluniau sydd eisoes mewn bodolaeth nac i ariannu costau cynnal a chadw adeiladau.

Y gobaith yw bod y rhaglen yn cynnig cyfle i greu partneriaeth fywiog rhwng yr Undeb ac eglwys a fydd yn galluogi'r eglwys i dyfu. I'r perwyl hwn, bydd Swyddog Cynnal ac Adnoddau yr Undeb yn gweithredu fel dolen gyswllt rhwng yr Undeb a'r eglwysi, a bydd hynny'n werthfawr iawn wrth drafod cynlluniau posib ac wrth baratoi cais am nawdd.

Os yw Capel y Tabernacl am dderbyn yr her trwy ymuno yn y rhaglen gyffrous hon, bydd angen gwahodd awgrymiadau ymhlith yr aelodau am gynlluniau blaengar ar ddechrau 2021. Yna rhaid galw cwrdd eglwys i wyntyllu'r syniadau hynny, yn y gobaith y gellir symud ymlaen yn hyderus i lunio cais am nawdd i'r cynllun arfaethedig.

[Gallwch ddarllen rhagor o gyfarwyddiadau am y rhaglen ar dudalen flaen rhifyn 3 Rhagfyr o'r Tyst <https://annibynwyr.org/tyst/>]